

QWTFG02.2 - Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2020

Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Claire Morgan, Jayne Woods.

Yn Bresennol (drwy gysylltiad fideo):

Jo Richards (JR), Alison Standfast (AS), Joanne Nicholas (JN).

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Esboniodd y Cadeirydd fod y Grŵp wedi'i sefydlu fel grŵp rheoli digwyddiadau i gefnogi'r Weithrediaeth i ddelfio â threfniadau ar gyfer cyfres arholiadau 2020. Nodwyd bod goruchwyliaeth y Bwrdd yn bwysig er mwyn darparu cefnogaeth i'r Weithrediaeth a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd llawn.
- 1.2. Gofynnwyd am ddatganiadau o fuddiant. Nododd CM fod ganddi blentyn yr effeithiwyd arno yn sgil canslo cyfres arholiadau'r haf, a'i bod hi'n cael ei chyflogi gan Brifysgol Caerdydd. Nododd IN ei rolau mewn Addysg Uwch ym Mhrifysgol Swydd Hertford (llywodraethwr) a Phrifysgol Caergrawnt (darlithydd cysylltiedig). Nododd JW ei bod yn llywodraethwr yng Ngholeg Sir Gâr a bod aelodau o'r teulu wedi'u heffeithio yn sgil canslo cyfres yr haf.

2. Cylch Gorchwyl

- 2.1. Trafodwyd y Cylch Gorchwyl. Cytunwyd i gynnwys rôl y Grŵp wrth roi caniatâd i ymgynghori a goruchwyllo'r ymgynghoriad. Cytunwyd hefyd i gynyddu'r cworwm i dri aelod.
- 2.2. Nodwyd y byddai cyfreithwyr yn cymryd rhan trwy gydol y broses, a chadarnhaodd JR fod cyfreithwyr hyd yma wedi adolygu'r holl ddogfennaeth. Byddent yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth hon a byddent wrth law i fynychu'r Grŵp pe bai angen hynny.
- 2.3. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl, yn amodol ar fân ddiwygiadau.
- 2.4. Cytunwyd y byddai'r Cylch Gorchwyl yn cael ei gylchredeg i'r Bwrdd.

CAM GWEITHREDU – DBJ i gylchredeg y Cylch Gorchwyl i'r Bwrdd

Crynodeb:

- i. Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

3. Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau 2020

3.1. Darparodd PB a JR y diweddariad canlynol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor:

- Y bwriad oedd gweithio gyda chyd-reoleiddwyr i lunio dull cyffredin cyn belled ag y bo modd.
- Hyd yma, roedd penderfyniadau ynghylch cymwysterau TGAU, Safon Uwch, Safon UG ac Unedau Blwyddyn 10 wedi cael eu gwneud a'u cyfleu. Nodwyd mai penderfyniadau a wnaed gan y Gweinidog Addysg oedd y rhain, ac roedd Cymwysterau Cymru wedi cefnogi hyn trwy gyflwyno opsiynau i'r Gweinidog. Roedd Cymwysterau Cymru wedi derbyn Cyfarwyddyd gan y Gweinidog i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru yn y materion hyn. Roedd Cymwysterau Cymru bellach wedi cyhoeddi dogfen ganllaw ar gyfer Canolfannau. Roedd y Bwrdd llawn wedi'i ddiweddarw wrth i bob cyhoeddiad gael ei wneud.
- Roedd y penderfyniad Polisi ynghylch cymwysterau safon UG ac Unedau Blwyddyn 10 wedi bod yn wahanol i Loegr. Ar gyfer safon UG, byddai dysgwyr yn cael gradd wedi'i chyfrifo'r haf hwn. Yn 2021 byddai gan y dysgwyr hynny sy'n mynd ymlaen i'r cymhwyster Safon Uwch yr opsiwn i sefyll yr unedau A2 yn unig a chael yr elfen UG wedi'i chyfrifo'n ôl o ganlyniadau A2 neu sefyll yr unedau UG ochr yn ochr â'u hunedau A2 - a'r canlyniad gorau o'r naill lwybr neu'r llall yn sail ar gyfer ardystio. Byddai dysgwyr UG yn Lloegr yn derbyn gradd wedi'i chyfrifo yn yr haf ac yna'n cael yr opsiwn i sefyll yr UG yn yr hydref pe byddent yn anhapus â'r radd a gyfrifwyd. Ar gyfer Unedau Blwyddyn 10, pe bai dysgwr wedi cael ei gofrestru ar gyfer tystysgrif gyfan, byddent yn cael gradd wedi'i chyfrifo. Esboniodd PB mai'r Polisi yn Lloegr oedd peidio â dyfarnu unrhyw ganlyniadau Blwyddyn 10.
- Bu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i ofyn am eu barn ar y penderfyniadau a'r trefniadau ac mae'r rhain yn parhau i ddigwydd. Nodwyd mai'r meysydd a dderbyniodd fwyaf o adborth oedd y diffyg gwybodaeth am gymwysterau galwedigaethol a'r wybodaeth a fyddai'n cael ei defnyddio i gyfrifo graddau. Nodwyd bod darparu trefn restrol gan Ganolfan yn bryder i golegau Addysg Bellach lle gallai fod ganddynt garfannau mawr a allai fod yn gweithredu o wahanol leoliadau. Roedd opsiynau ar gyfer carfannau mawr yn cael eu hystyried. Nododd PB hefyd fod y trefniadau ynghylch dysgwyr a addysgir gartref yn cael eu hystyried o gofio efallai na fydd y ganolfan y cofrestrodd y dysgwr drwyddi yn gallu darparu Gradd Asesu Canolfan neu gynnwys y dysgwr yn ei threfn restrol.

- Mae gwaith ar y cynigion ar gyfer Cymwysterau Galwedigaethol yn parhau a hysbysodd PB y Pwyllgor ei fod yn cyfarfod â'r Gweinidog Addysg ar 14 Ebrill. Nododd JR fod cyhoeddiad gan Qfqual ar fin digwydd, ond diweddariad fyddai hwn yn hytrach na phenderfyniad ar y ffordd ymlaen. Mae gwaith yn parhau er mwyn dod o hyd i ateb priodol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Mae'r ystod amrywiol o gymwysterau yn golygu ei bod yn her ac mae angen cymryd amser i sicrhau bod y penderfyniad cywir yn cael ei wneud.
- Cynigiwyd y byddai Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar egwyddorion sy'n sail i'r model i 'gyfrifo' graddau a threfniadau ar gyfer unrhyw broses apelio. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cychwyn yr wythnos yn dechrau 21 Ebrill.

3.2. Cytunodd y Pwyllgor y dylai aelodau'r Bwrdd fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau dadleuol. Cydnabuwyd hyn, a nodwyd bod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn darparu fforwm at y diben hwn, gan atgyfeirio materion i'r Bwrdd llawn lle bo hynny'n briodol.

Crynodeb:

- i. Nododd y Pwyllgor y diweddariad gan PB a JR.

4. Dyddiad y cyfarfod nesaf

4.1. O ystyried y materion sy'n dod i'r amlwg a drafodwyd, cytunwyd y dylai'r grŵp drefnu cyfarfodydd wythnosol byr ar gyfer yr wythnosau nesaf (gallai'r rhain fod yn fyr iawn neu gellid eu canslo os nad oes eu hangen). Byddai hyn yn cael ei adolygu ymhob cyfarfod, a'i bod yn hanfodol bod y Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a chanlyniadau, a bod yr holl faterion priodol yn cael eu cyfeirio ato.

4.2. Cytunwyd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf fel a ganlyn:

- Cofrestr Risg
- Diweddariad ar y gwaith hyd yma gan gynnwys egwyddorion sy'n sail i'r model ar gyfer cyfrifo graddau ac amlinelliad lefel uchel o'r broses apelio
- Diweddariad cyfathrebu - themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o sianeli cyfryngau cymdeithasol, mewnflwch Cyfathrebu ac ymholiadau i CC

CAM GWEITHREDU 02 – JN i drefnu cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

5. Unrhyw Fater Arall

5.1. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.30